

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

CYNNIG: GWELLA'R DDARPARIAETH ADDYSG YNG NGHWM CYNON

1. Diben yr Adroddiad Gwrthwynebu

Caiff yr adroddiad yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, sef dogfen statudol 006/2013. Ei ddiben yw:

- Llywio canlyniad cyhoeddi'r hysbysiadau statudol a gafodd eu cyhoeddi ar gyfer y cynnig yma ar 13 Chwefror 2019 am gyfnod o o leiaf 28 diwrnod; a
- Rhoi manylion am yr holl wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law ac ymateb yr awdurdod lleol iddyn nhw.

2. Yr Hysbysiadau Statudol

Mae'r Hysbysiad Statudol i ddatblygu'r cynnig yma, a gafodd ei gyhoeddi ar 13 Chwefror 2019, i'w gweld isod:

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cyfadrn Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, CF45 4UQ

Dyma hysbysiad yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Cyngor RhCT), ac yntau wedi ymgynghori â'r bobl hynny yr oedd yn ofynnol iddo ymgynghori â nhw, yn cynnig:

1. Cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun a chodi adeilad ysgol newydd. Bydd yr adeilad ysgol newydd ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed ac yn cael ei godi ar safle presennol Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd Cyngor RhCT yn parhau i gynnal yr ysgol.
Ysgol Gynradd Hirwaun, Heol Glannant, Hirwaun, Aberdâr, CF44 9NF
2. Newid categori iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o'i statws dwy iaith i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd yr ysgol ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed ac yn parhau i gael ei chynnal gan Gyngor RhCT.
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, Pontprenllwyd, Penderyn, Aberdâr, CF44 9JW

Ymgwymerodd Cyngor RhCT â chyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynigion yma. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rheiny a atebodd, ymatebion y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig, a barn Estyn ar gael ar wefan y Cyngor
<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/Schoolconsultations.aspx>.

Y bwriad ydy gweithredu'r cynigion yma erbyn 1 Medi 2021.

Nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Hirwaun ar hyn o bryd yw 265 ynghyd â'r Ysgol Feithrin a bydd nifer y lleoedd yn cynyddu i 390 ynghyd â'r Ysgol Feithrin. Y nifer derbyn i'r Dosbarth Derbyn ar gyfer

disgyblion 4 oed yn yr ysgol newydd fydd 55 (yn y flwyddyn ysgol gyntaf ar ôl i'r cynigion gael eu rhoi ar waith). Bydd 60 o leodedd meithrin.

Fydd dim newid o ran nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gymraeg Gymuned Penderyn (231 o leodedd). Bydd y nifer derbyn ar gyfer Ysgol Gymraeg Gymuned Penderyn yn parhau i fod yn 33.

Bydd cludiant ar gael i'r disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor RhCT. Ar hyn o bryd, mae Cyngor RhCT yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu'i ysgol gynradd, babanod neu ysgol iau berthnasol, os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i 1.5 o filltiroedd cerdded o'r ysgol honno, neu os nad oes llwybr cerdded ar gael. Ysgol y dalgylch, neu'r ysgol agosaf, ydy'r 'ysgol berthnasol'.

Caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion yma cyn pen 28 diwrnod o'u cyhoeddi, hynny yw, erbyn 15 Mawrth 2019. Dylid anfon gwrthwynebiadau at: Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar CF45 4UQ. E-bost: CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk.

Bydd Cyngor RhCT yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a ddaw i law (ac sydd heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau arnyn nhw, cyn pen cyfnod o 7 niwrnod o benderfynu ar y cynnig.



Llofnod:
Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Dyddiad: 13 Chwefror 2019

3. Manylion y Gwrthwynebiadau a Ddaeth i Law

Yn ystod y cyfnod Hysbysiad Statudol, daeth cyfanswm o 9 gwrthwynebiad i law erbyn y dyddiad cau sef 15 Mawrth 2019. Roedden nhw'n cynnwys llythyrau, negeseuon e-bost a 3 deiseb. Dyma'r manylion:

- Rhieni disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ar hyn o bryd (4)
- Rhiant disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun (1)
- Disgybl sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ar hyn o bryd (1)
- Deiseb gan rieni (47 o lofnodwyr)
- Deiseb gan drigolion (171 o lofnodwyr)
- Deiseb ar-lein drwy Change.org (171 o lofnodwyr)

Bydd gydag aelodau o'r Cabinet gyfle i ddarllen a dadansoddi'r holl wrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu cyn cyfarfod y Cabinet ar 9 Ebrill 2019. Caiff yr holl wrthwynebiadau eu trafod ochr yn ochr â'r dadleuon o ran y cynigion a'r ffactorau fel sydd wedi'u nodi yn y Cod.

4. Y Gwrthwynebiadau a'n Hymatebion Ni

- **Fydd Penderyn ddim yn ysgol 'bentref' gymuned go iawn.**

Does dim rheswm pam y bydd unrhyw o'r cysylltiadau yma'n cael eu heffeithio'n andwyol gan y cynigion yma. Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal a chafodd ei atodi i'r Ddogfen Ymgynghori. Mae hwn ar gael ar wefan y Cyngor.

- **Roedd Adroddiad Estyn ar gyfer Hirwaun yn wael. Categori Ysgol Hirwaun yw coch ond un Penderyn yw melyn. Dydy RhCT ddim yn cydymffurfio â'r Cod gan nad yw addysg 'tebyg am debyg' yn cael ei chynnig.**

Mae'r broses yma'n cydymffurfio â'r Cod yn llawn. Fel sydd wedi'i nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae Estyn yn ymgynghorai statudol a chafodd ei ymateb llawn mewn perthynas â'r cynigion ei gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori. Mae crynodeb o'i gasgliad isod.

Crynodeb/Casgliad

Y cynigydd yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac mae'r cynnig yn ymwneud â chodi adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun a newid y statws cyfrwng iaith - i'r Gymraeg yn unig - yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fis Medi 2021.

Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith ffafriol ar safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

Mae Ysgol Gynradd Hirwaun wedi parhau i wneud cynnydd da ac yn parhau i gael ei monitro'n agos gan y Cyfarwyddwr Addysg a'r Ymgynghorwyr Her. Mae cefnogaeth a monitro parhaus yn cael eu darparu a bydd Estyn yn dychwelyd i gynnal ail arolygiad eleni.

- **Cafodd pryderon eu codi ynglŷn â symud disgyblion i ysgol newydd ar ganol y cyfnod cynradd.**

Mae proses bontio ystyrion a llwyddiannus yn rhan annatod o sicrhau bydd disgyblion yn ymgartrefu yn eu hamgylcheddau ysgol newydd heb fawr o amhariad. Bydd yr awdurdod lleol yn darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i sicrhau bod y broses bontio mor ddidrafferth a dibryder ag sy'n bosibl ar gyfer y disgyblion.

- **Mae yna blant sy'n cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd nad oes modd iddyn nhw gael eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg yn eu hysgol leol.**

Mae Trefniadaeth Ysgolion a'r drefn ar gyfer derbyn plant yn cael eu gweinyddu yn unol â Chodau Statudol ac yn ofynion o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Rydyn ni'n sicrhau bod ein holl weithdrefnau yn dilyn y cod yma sy'n

gwneud yn siŵr ein bod ni'n ymgymryd â 'diwydrwydd dyladwy' fel na fydd unrhyw blentyn yn cael ei roi o dan anfantais nac yn cael ei drin yn llai ffafriol. Mae'r ymgynghoriad yma wedi cael ei gynnal yn unol â'r cod yma.

- **Mae'n debygol y bydd staff cyfrwng Saesneg Ysgol Penderyn yn colli eu swyddi. Dydy hyn ddim yn dderbyniol.**

Dydyn ni ddim yn gwybod eto beth fydd yr effaith ar staff. Serch hynny, bydd Adran Adnoddau Dynol RhCT yn trafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff yn unigol.

- **Byddai Cludiant Cyhoeddus Cyfyngedig yn atal rhieni rhag codi eu plant o'r ysgol mewn argyfwng.**

Mae bws uniongyrchol bob awr o Benderyn i Hirwaun.

Ddylai'r sefyllfa yma ddim codi'n aml iawn ond bydd gan bob ysgol gyfrifoldebau statudol i sicrhau bod diogelwch a lles y plant yn hollbwysig, fel sydd wedi'i nodi yn Neddf Addysg 2002.

Mae pob ysgol ac aelod o staff yn effro i'w cyfrifoldebau o ran diogelu, ac mae gan ysgolion weithdrefnau ar waith i ddelio â materion pe baen nhw'n codi. Mae gan staff ddyletswydd gofal i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn derbyn gofal ac y byddan nhw'n gweithredu'n briodol dan unrhyw amgylchiadau, argyfwng neu beidio.

- **Pam na all y dalgylch cyfrwng Saesneg newid i gadw addysg cyfrwng Saesneg yn y ddwy ysgol?**

Mae rhwymedigaeth statudol ar RhCT i reoli lleoedd ysgol i ateb y galw lle bo angen. Dydy'r galw yn yr ardal yma ddim yn cyfiawnhau hyn.

- **Bydd cynnydd mewn traffig a llygredd o ganlyniad.**

Does dim tystiolaeth y bydd traffig a lefelau llygredd yn codi o ganlyniad i'r cynigion yma.

- **Pam mae maint dosbarthiadau yn yr ysgol newydd mor fawr? Dydw i ddim eisiau i'm plentyn fod mewn dosbarth o 50 neu 60 o ddisgyblion.**

Bydd capasiti'r ysgol a maint y dosbarthiadau yn cael eu cynllunio ar gyfer 30 o ddisgyblion yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

- **Bydd y disgyblion yn cael eu haflonyddu wrth i'r ysgol newydd gael ei hadeiladu.**

Bydd gan y contractwyr a fydd yn gwneud y gwaith ar y safle brofiad o weithio ar safleoedd ysgol byw.

Bydd iechyd a diogelwch y disgyblion a'r staff yn hollbwysig bob amser, a bydd y contractwyr yn cydweithio gyda'r ysgol a'r Cyngor i sicrhau bod unrhyw darfu yn cael ei gadw i'r lleiaf posibl. Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o reoli adeiladu ar safleoedd ysgol gweithredol, ac mae'r prosesau a'r gweithdrefnau rydyn ni wedi'u mabwysiadu ar brosiectau eraill wedi bod yn llwyddiannus iawn.

- **Mae'r Cyngor wedi cynllunio'r sefyllfa fel bod nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn Saesneg ym Mhenderyn wedi gostwng.**

Dydy hyn ddim yn wir o gwbl, a does dim tystiolaeth i ategu'r honiad yma.

Mae'r polisi derbyn i'r ysgol a'r meini prawf cysylltiedig yn Ysgol Penderyn yn gyson ledled RhCT, ac mae'n cydymffurfio'n llawn â'r Cod Derbyn i Ysgolion statudol. Yn ogystal â hynny, mae'r holl drefniadau cludo cyfredol yn yr ardal yma, a'r trefniadau cludo a fydd yn cael eu darparu yn y dyfodol, yn dilyn Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol RhCT. Unwaith eto, mae dull cyson wedi'i fabwysiadu ac yn parhau i gael ei fabwysiadu.